**Adolygiad Addysg Uwch Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Cyflwyniad i ategu’r cyflwyniad gan Is-Ganghellor H¶ n**

**Prifysgol Cymru, yr Athro Keith Robbins, ar 8 Chwefror 2001**

**Cenhadaeth:**

"Mae’r Brifysgol yn sefydliad cenedlaethol pwysig … wedi ymrwymo i helpu i fodloni anghenion addysgol ac economaidd Cymru ac i ategu ei threftadaeth ieithyddol, diwylliannol, a chenedlaethol."

**Prif swyddogaethau:**

Nodir tair prif swyddogaeth yn natganiad gweledigaeth y Brifysgol (cyflwyniad i Gadeirydd y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16, Ebrill 2000, fel y’i hatodir i’r cyflwyniad i Adolygiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, Tachwedd 2000):

- fel y prif gorff dyfarnu graddau a gwarantwr safonau academaidd yng Nghymru – gyda phob un namyn un o’r tri ar ddeg o SAU yng Nghymru (gan gynnwys ei hwyth aelod-sefydliad) yn cynnig gradd Prifysgol Cymru;

- fel hyrwyddwr cydweithrediad academaidd a chyd-fentrau rhwng yr aelod-sefydliadau; a

- fel un o’r ychydig o wir sefydliadau cenedlaethol yng Nghymru.

Drwy’r cyntaf a’r ail o’r swyddogaethau hyn yn arbennig, mae’r strwythur ffederal yn ychwanegu gwerth at waith academaidd y sefydliadau. Drwy’r drydedd, mae’n cyfrannu ar sail eang i fywyd y genedl.

**Amrywioldeb o fewn y sefydliadau a rhyngddynt**

Mae Prifysgol Cymru yn credu bod categoreiddio SAU Cymru i ddau grwpiadau ar wahân, y naill yn canolbwyntio ar ymchwil sylfaenol a phynciau academaidd, a’r llall yn canolbwyntio ar ymchwil gymhwysol a phynciau galwedigaethol (h.y. anacademaidd), yn enbyd o amherffaith ac nad yw’n adlewyrchu realiti’r sefyllfa yng Nghymru. Mae’r Prifysgol gyfan eisoes yn

sefydliad gwahanol ac mae yna hefyd gryn amrywioldeb o fewn yr aelod-sefydliadau unigol. Mae'r sefydliadau hynny – gan gynnwys y rhai y credid yn draddodiadol eu bod yn canolbwyntio ar ymchwil – wedi datblygu cenadaethau gwirioneddol wahanol sy'n cwmpasu ystod eang o addysgu galwedigaethol ac ymchwil gymhwysol, yn ogystal ag ymchwil academaidd ac addysgu o safon ryngwladol.

**Cydweithredu o fewn y fframwaith ffederal: is-grwpiadau rhanbarthol ac eraill**

Bydd y Brifysgol yn gweithredu'n hyblyg er mwyn galluogi ei haelod-sefydliadau i ymateb i sefyllfaoedd sy'n newid – er enghraifft, i fanteisio ar gyfleoedd i ffurfio cynghreiriau strategol a chysylltiadau eraill o fewn y ffederasiwn. Mae'n debygol y bydd y cyfryw gynghreiriau a chysylltiadau posibl yn digwydd yn bennaf ar lefel ranbarthol, ac mae yna gryn fudd posibl i'w gael o archwilio a defnyddio'r manteision a allai ddeillio o weithredu rhai gweithgareddau ar sail ranbarthol o fewn y strwythur ffederal.

**Methodoleg Ariannu**

Mae'r fethodoleg ariannu gyfredol yn amhriodol i gynnal amrywioldeb ac i fynd ar drywydd cydweithrediad, a bydd y Brifysgol, gyda'i haelod-sefydliadau, yn ceisio perswadio'r Cynulliad a CCAUC i newid y fethodoleg honno, er mwyn cyflawni'r amcanion craidd hyn.

**Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol**

Gan adeiladu ar ddatganiad gweledigaeth Ebrill 2000, mae Prifysgol Cymru yn rhagweld y caiff ei swyddogaethau presennol eu datblygu ymhellach o fewn fframwaith ffederal gwell. Mae'r Brifysgol yn sefydliad cynhwysol, ac, ynghyd â'i haelodau presennol, mae'n gweld y byddai o fantais i'r sector AU yng Nghymru gyfan wrth iddo ymestyn ymhellach gynnwys, o fewn y ffederasiwn, rai o'r SAU Cymreig nad ydynt eisoes yn aelodau, neu bob un ohonynt. Er bod ymestyn yn awgrymu mwy fyth o amrywioldeb cenhadaeth o fewn aelodaeth y Brifysgol, ni fyddai'n lleihau'r lefel gyffredinol o amrywioldeb ar draws y sector. Er hynny, byddai'n rhoi mwy o gydlyniad i swyddogaeth y Brifysgol fel yr awdurdod dyfarnu graddau a byddai'n gwella'r cyfleoedd ar gyfer cydweithredu o fewn y strwythur ffederal.